# Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith

Cyhoeddwyd fersiwn 3 o Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith ar 30 Mehefin 2021. Mae hon yn disodli fersiwn (1.1), a gymeradwywyd ar 26 Mehefin 2018.

Rydym yn parhau i adolygu ein Dogfennau Rheoleiddiol ac yn croesawu adborth ar unrhyw adeg. Anfonwch eich sylwadau i polisi@cymwysteraucymru.org.

## Egwyddorion Cyffredinol Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith

Mae'r polisi hwn wedi'i anelu at gyrff dyfarnu cydnabyddedig ac aelodau o'r cyhoedd i'w galluogi i ddeall sut y gallai Cymwysterau Cymru ("ni") ddefnyddio ein pwerau gorfodi a chosbi a gynhwysir yn Rhan 7 (*Pwerau Gorfodi Cymwysterau Cymru*) ac Atodlen 3 (*Darpariaeth bellach ynghylch cydnabod cyrff dyfarnu*) o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 ("y Ddeddf").

Rydym yn pennu Amodau Cydnabod ar gyfer pob corff dyfarnu cydnabyddedig ac yn monitro cydymffurfiaeth yn erbyn y rhain. Rydym hefyd yn monitro cydymffurfiaeth cyrff dyfarnu ag Amodau Cymeradwyo, ac unrhyw ofynion rheoleiddiol perthnasol eraill a gynhwysir yn ein Dogfennau Rheoleiddiol ac a roddir i gyrff dyfarnu yn uniongyrchol. Byddwn yn defnyddio pwerau gorfodi neu'n rhoi sancsiynau cymesur pan fo hynny'n briodol os na fydd corff dyfarnu yn cydymffurfio â'n gofyniol rheoleiddiol.

Byddwn yn ystyried y gofynion y gall rheoleiddio eu gosod ar gyrff dyfarnu ac rydym wedi llunio'r polisi hwn yn unol ag egwyddorion tryloywder, cysondeb, cymesuredd, atebolrwydd a chael ein targedu. Er mwyn sicrhau cymesuredd, mae'r polisi hwn hefyd yn amlinellu'r camau a ddefnyddir cyn defnyddio pwerau gorfodi neu gosbi.

Mae'r polisi hwn ond yn ymwneud â chymhwyso pwerau gorfodi a chosbi. Mae'r Polisi Apeliadau Rheoliadol yn amlinellu sut y gellir apelio yn erbyn penderfyniadau rheoliadol, gan gynnwys cymhwyso pwerau gorfodi neu gosbi.

## Cyd-destun

1. Mae ein Fframwaith a'n Dull Rheoleiddio yn egluro ein dull o reoleiddio. Rydym yn gweithredu ar sail risg wrth reoleiddio er mwyn cyflawni ein prif nodau, sef hybu hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau yng Nghymru a diogelu buddiannau rhesymol dysgwyr. Byddwn bob amser yn ceisio atal a lliniaru pethau sy'n mynd o chwith yn unol â'r prif nodau hyn.

2. Mae'r system gymwysterau yn gymhleth ac, er y byddwn yn ceisio cynnal asesiadau risg i atal problemau, bydd problemau yn codi o bryd i'w gilydd sy'n effeithio ar y cymwysterau a reoleiddir gennym. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, byddwn yn ystyried ein camau gweithredu yn ofalus, gan ystyried yr amgylchiadau ac, yn enwedig, achos y broblem. Lle y bo'n briodol, byddwn yn defnyddio'r pwerau sydd gennym i benderfynu pa gamau gweithredu y dylid eu cymryd er mwyn atal y broblem rhag digwydd eto ac er mwyn unioni'r sefyllfa. Mae'r polisi hwn yn nodi'r ffyrdd rydym yn bwriadu ymdrin â diffyg cydymffurfiaeth a defnyddio ein pwerau gorfodi a chosbi.

## Camau gweithredu y gallem eu cymryd

3. Yr opsiynau sydd ar gael i ni fel y'u nodir yn y Ddeddf yw:

   i. rhoi cyfarwyddyd i'r corff dyfarnu gymryd cam gweithredu penodol neu gyflawni canlyniad penodol (Adran 37- *Pŵer i roi cyfarwyddiadau);*
   ii. gosod cosb (Adran 38- *Pŵer i osod cosbau ariannol*);
   iii. gosod gofynion ychwanegol, fel amodau cydnabod arbennig, ar gorff dyfarnu (Atodlen 3 Adran 4 - *Amodau arbennig y caniateir i gydnabyddiaeth fod yn ddarostyngedig iddynt*). Gall yr amodau hyn ymwneud â:
      - cyfarwyddo corff dyfarnu i wneud trefniadau i fath o gymhwyster a gynigir ganddo gael ei drosglwyddo gan gorff dyfarnu arall (amodau trosglwyddo);
      - cynnig terfyn ar y ffioedd y gall corff dyfarnu eu codi am wasanaethau (amodau capio ffioedd); neu
      - cydymffurfio â cyfarwyddyd a roddwn i gorff dyfarnu o dan baragraff (4)(2)(c) o Atodlen 3.
   iv. tynnu cydnabyddiaeth y corff dyfarnu yn ôl (Atodlen 3 Adran 19 - *Tynnu Cydnabyddiaeth yn Ôl*).

4. Cyn cymhwyso pwerau gorfodi neu gosbi gallwn, fel y bo'n briodol, wneud y canlynol:
   i. rhoi canllawiau ychwanegol i gorff dyfarnu;
   ii. ceisio datrysiad anffurfiol;

iii. cytuno ar gynllun gweithredu a gynigir gan y corff dyfarnu; neu
iv. derbyn ymrwymiad ffurfiol gan y corff dyfarnu.

5. Gan mai ein nod yw sicrhau bod system gymwysterau Cymru yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr, gallwn, lle y gellir rhagweld problem, ymyrryd i atal y broblem rhag digwydd drwy roi cyfarwyddyd i gorff dyfarnu gymryd camau penodol, neu beidio â'u cymryd, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Amodau Cydnabod perthnasol neu ofyniad rheoleiddiol eraill. Fel arall, gallwn gymryd camau gweithredu ar ôl digwyddiad i roi cyfarwyddyd i gorff dyfarnu gymryd camau gweithredu er mwyn atal diffyg cydymffurfiaeth pellach.

6. Mewn rhai achosion, gallwn benderfynu defnyddio mwy nag un o'r opsiynau a gyflwynir yn Ffigur 1 er mwyn cyflawni'r canlyniad a ddymunir gennym. Gellir defnyddio'r opsiynau isod wrth uwchgyfeirio ond ni fwriedir iddynt fod yn arwydd o gamau a ddiffiniwyd. Mae'r diagram yn darparu syniad defnyddiol o arwyddocâd y camau y gallwn eu cymryd ond nid yw'n nodi rhestr wedi'i blaenoriaethu o'u pwysigrwydd, a gallwn eu defnyddio mewn trefn wahanol neu mewn gwahanol gyfuniadau.

**Ffigur 1 - Opsiynau sydd ar gael i Cymwysterau Cymru**



## Ffactorau y gwnawn eu hystyried

7. Ein nod yw defnyddio ein pwerau gorfodi a chosbi mewn ffordd gymesur, dryloyw ac wedi'i thargedu bob amser er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gan gorff dyfarnu neu fynd i'r afael â phroblemau sydd wedi digwydd.

8. Rhain yw'r ffactorau y rhagwelwn y byddwn yn eu hystyried wrth bennu ein camau gweithredu:

    i. yr amseriad a'r modd y cafodd y broblem ei dwyn i'n sylw gyntaf. Er enghraifft, a wnaeth y corff dyfarnu roi gwybod am y broblem neu a wnaethom ei nodi o ganlyniad i gŵyn, achos o chwythu'r chwiban neu weithgaredd monitro/archwilio;
    ii. natur y mater a ph'un a oedd yn fwriadol neu'n anfwriadol;
    iii. y tebygolrwydd, yn ein barn ni, y bydd y broblem hon neu rywbeth tebyg yn codi eto;
    iv. natur frys y camau gweithredu sydd eu hangen;
    v. p'un a yw corff dyfarnu wedi methu â chydymffurfio ag amod enu ofyniad rheoleiddiol arall, neu'n debygol o wneud hynny;
    vi. pan fydd y mater yn debygol o gael effaith andwyol ar ddysgwyr ac, os felly, pa mor arwyddocaol y gallai'r effaith hyn fod;
    vii. y ffactorau sylfaenol a achosodd y broblem:
        - p'un a oedd y corff dyfarnu yn ymwybodol o'r risgiau a gymerwyd ai peidio;
        - p'un a oeddem eisoes wedi darparu arweiniad yn y maes hwn ai peidio; a ph'un a gydymffurfiwyd â'r arweiniad hwnnw ai peidio; a
        - p'un ai digwyddiad untro ydoedd neu ganlyniad methiant systemig ehangach.
    viii. ymateb y corff dyfarnu pan ddaeth y broblem i'r amlwg;
    ix. yr effaith y gallai unrhyw camau gweithredu rheoleiddiol ei gael ar ddysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau gyda'r un corff dyfarnu;
    x. unrhyw gamau gweithredu perthnasol a gymerir gan unrhyw gorff rheoleiddiol arall mewn perthynas â'r un mater neu fater perthnasol. a
    xi. yr effaith ar hyder y cyhoedd.

9. Yn ogystal â'r rhain, mae ffactorau eraill y byddwn yn eu hystyried cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw gamau gweithredu rheoleiddiol penodol. Caiff y rhain eu nodi yn ein polisïau eraill:

    i. gosod cosbau ariannol yn unol â'n Polisi Cosbau Ariannol; a

ii. cyhoeddi amodau capio ffioedd yn unol â'n Polisi Capio Ffioedd.

10. Byddwn yn ceisio bod yn gymesur, yn briodol ac yn ystyried risgiau cymryd camau gorfodi. Byddwn hefyd yn ymwybodol o unrhyw gamau gweithredu eraill sydd ar waith gan reoleiddwyr eraill mewn perthynas â'r un mater, neu fater perthnasol.

11. Os byddwn yn penderfynu defnyddio unrhyw rai o'r pwerau gorfodi a chosbi sydd ar gael i ni, byddwn yn gwneud hynny, lle y bo'n bosibl, gan hysbysu'r corff dyfarnu dan sylw yn llawn ein bod yn gwneud hynny. Byddwn yn cyhoeddi hysbysiad o'n bwriad i gymryd camau gorfodi neu osod cosb a byddwn yn gwahodd y corff dyfarnu i gyflwyno sylwadau. Caiff corff dyfarnu gyfle fel arfer i wneud sylwadau preifat ar ganfyddiadau unrhyw ymchwiliad a chamau gweithredu arfaethedig. Gall cyrff dyfarnu gynnig rhwymedïau amgen a ystyrir gennym. Bydd yr amser a fydd ar gael ar gyfer cyswllt o'r fath gyda'r corff dyfarnu dan sylw yn dibynnu ar natur y camau gweithredu a'u byrder. Gellir apelio yn erbyn ein camau gorfodi a chosbi drwy'r prosesau a amlinellir yn ein Polisi Apeliadau Rheoliadol.

12. O dan yr amgylchiadau annhebygol na fydd corff dyfarnu yn barod i roi'r wybodaeth neu sicrhau'r mynediad sydd ei angen arnom, mae Deddf Cymwysterau Cymru yn rhoi'r pŵer i ni gael mynediad i eiddo'r corff dyfarnu a'i archwilio. Os byddwn o'r farn bod angen ymgymryd â'r cam gweithredu hwn, byddem yn gwneud cais i Ynad Heddwch am ganiatâd, gan nodi'r cyfiawnhad dros wneud hynny. Byddem ond yn gwneud hyn petai peidio â gwneud, yn ein barn ni, yn cael effaith andwyol ar ddysgwyr neu ar y system gymwysterau.

13. Byddwn yn adolygu'r camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn achos o gymryd camau gorfodi neu gosbi er mwyn ystyried gwersi a ddysgwyd.

14. Gallwn, yn ôl ein disgresiwn, gyhoeddi manylion camau gweithredu neu gosbi a gymerwyd megis yn yr adroddiad blynyddol i'r Senedd neu ar ein gwefan. Byddwn bob amser yn cyhoeddi'r camau gweithredu rheoleiddiol rydym wedi'u cymryd, yn cynnwys ymgymeriadau, amodau arbennig, cyfarwyddiadau, cosbau ariannol a thynnu cydnabyddiaeth yn ôl.